



Celf Cymru: yn bont o'n bro i'n byd *Wales Arts: a bridge to the world*

Strategaeth Ryngwladol ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru
gan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru



Gareth Bonello a Zining Wang

Cyd-destun

Mae ymrwymiad Cyngor Celfyddydau Cymru i weithio'n rhyngwladol yn bwysicach nac erioed. Gyda'r newid cyson o ran lle a chymuned o amgylch y byd, mae llywio moroedd cythryblus wedi dod yn norm newydd. Ar adegau o'r fath mae'r celfyddydau'n hanfodol, yn disgleirio golau treiddiol a dadlennol ar y byd yr ydym yn byw ynddo.

Mae'r celfyddydau'n ein helpu i archwilio ein synnwyr o le a'r byd o'm cwmpas - i werthfawrogi'r doethineb, harddwch, mewnwediad a dealltwriaeth o ddiwylliannau ar wahân i'n diwylliant ni ein hunain. Ein hartistiaid, wrth arsylwi'r byd a'i ofidiau a'i wiriondebau, ei obeithion a'i ofnau, sy'n ailddyfeisio'r mynegiant diwylliannol sy'n goleuo ein bywydau.

Pan fo'r byd yn ymddangos yn fwy eithafol ac anoddefgar, mae gan y celfyddydau a diwylliant rôl hanfodol i'w chwarae wrth uno ein diwylliannau a'n pobl - o fewn Cymru a chyda'r byd y tu hwnt.

Dyma pam y mae gweithio'n rhyngwladol mor bwysig, nawr yn fwy nag erioed, er mwyn datblygu gwlad ddynamig a chyffrous, agored a chroesawgar, gyda chreadigrwydd yn sylfaen iddi.

Mae ein hartistiaid bob amser wedi bod yn archwilwyr naturiol. Nid rhwystrau yw ffiniau, i'r dychymyg nac i'r broses greadigol. Mae ein hartistiaid yn genhadon diwylliannol ac yn siarad yn effeithiol i'r byd y maent yn gweithio ynddo yng Nghymru ac i Gymru pan fyddant yn archwilio'r byd.



Liminality, Delhi Manas Sharma (llun: Janire Najera)

Mae ein celfyddydau, ein diwylliant a'n hieithoedd yn rhoi personoliaeth unigryw fyd-eang i Gymru. Ac mae'r cyd-destun diwylliannol unigryw hwn yn gysylltiedig â sawl iaith a diwylliant lleiafrifol arall ac mae ein stori'n berthnasol o amgylch y byd. O'n profiad o feithrin diwylliant dwyieithog; ein harferion celfyddydol cynhwysol sy'n torri tir newydd; ein dull o flaenoriaethu diwylliant o fewn nodau datblygu cynaliadwy i'n rhaglen ysbrydoledig Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a'n huchelgeisiau cynyddol yn y Celfyddydau ac lechyd - mae'r rhain i gyd yn atseinio'n rhyngwladol.

Bob dydd rydym yn clywed straeon ysbrydoledig am y ffyrdd y mae artistiaid sefydliadau'r celfyddydau'n adeiladu cymuned a bywyd dinesig. Ond cawn ein herio i ddangos sut yr ymatebwn i egni newydd sy'n deillio o rwystredigaeth y rheini sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwrthio i'r cyrion, eu hanwybyddu neu eu hanghofio. Mae eraill yn byw eu bywydau yn ofni hiliaeth ac amheuaeth ddiwylliannol o'r "arall".

Caiff anghydraddoldebau a thlodi yn ein cymunedau eu hadlewyrchu yn y rhwystrau diwylliannol, cymdeithasol, ffisegol ac economaidd niferus sy'n atal mynediad pobl i'r celfyddydau a'u hymgysylltiad â'r byd. Mewn rhai achosion, gall cymunedau deimlo'r un faint o gysylltiad â gwlad yn rhywle arall ag a deimlant â'u cyd-ddinasyddion yma yng Nghymru.

Mae creu cyd-destun diwylliannol newydd sy'n meithrin dealltwriaeth a goddefiad rhyngwladol trwy ymgysylltu â'r cymunedau rhyngwladol amrywiol yng Nghymru, gan sicrhau cyfle cyfartal i bawb a rhannu arferion da o ran gwaith cynhwysol, yn uchelgais newydd i Gyngor y Celfyddydau, a gefnogir gan y strategaeth hon.

Wrth i ni nodi canmlwyddiant ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, ac wrth i ni ddatblygu perthynas newydd gyda'r cyfandir Ewropeaidd, mae meithrin perthnasau heddychlon rhwng pobl a chymunedau yng Nghymru a'u perthynas â'r byd yn holl bwysig.

Ni wnawn hyn ar ein pen ein hunain. Bydd Cymru'n ymateb yn fwy effeithiol i heriau'r dyfodol os gall ddatblygu dull cydgysylltiedig a hyderus o ymgysylltu'n rhyngwladol. I Gyngor y Celfyddydau, golyga hyn fod angen gweithio'n agosach ag asiantaethau eraill yn y sector diwylliannol ehangach yn ogystal â chyfathrebu cynyddol ag adrannau ac asiantaethau perthnasol yn llywodraethau Cymru a'r DU sy'n gyfrifol am ddiwylliant a chreadigrwydd, polisi tramor, masnach a diwydiant.



Xian Zhang yn perfformio yn ei chyngerdd agoriadol yn Brif Arweinydd Gwadd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC (llun: y BBC/Ealovega)

Pwy ydyn ni

Mae gweithgareddau rhyngwladol y Cyngor yn ymestyn ar draws y sefydliad cyfan ac ar draws ehangder a dyfnder ein buddsoddiadau. Mae'r gweithgareddau hyn fel arfer (ond nid bob amser) yn cael eu datblygu, eu cefnogi a / neu eu cydgysylltu gan ein hasiantaeth fewnol, **Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (WAI)**.

Drwy gynnig porth rhwng celfyddydau Cymru a'r byd, mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn felin drafod a darparu ar gyfer Cyngor y Celfyddydau a'r celfyddydau yng Nghymru. Mae'n cynnig arbenigedd ac arweinyddiaeth broffesiynol sy'n helpu Cyngor y Celfyddydau'n gyffredinol i ymchwilio, profi a darparu ei amcanion rhyngwladol.

Mae tîm staff craidd bach WAI yn gweithio gydag unigolion ar draws holl bortffolio'r Cyngor; yn ogystal â chyda Swyddogion Llywodraeth Cymru, y British Council ac eraill i gefnogi rhagolwg byd-eang ar gyfer celfyddydau a diwylliant Cymru. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu uchelgais benodedig er mwyn gwireddu ein potensial rhyngwladol cyfunol.

Ein **diben** yw

- sicrhau bod artistiaid Cymru'n ymgysylltu'n rhyngwladol;
- helpu i ddatblygu a chyfoethogi arfer, gyrfaoedd ac uchelgais artistig;
- tyfu cyfleoedd byd-eang newydd i'r celfyddydau a diwylliant Cymru;
- buddsoddi mewn cydweithrediadau artistig sy'n ysbrydoli a chysylltu pobl mewn cymunedau amrywiol yng Nghymru.

Y Gwerthoedd sy'n arwain ein dull gweithredu rhyngwladol yw:

Cydweithredol Amlieithog
Cynaliadwy Croesawgar
Cyfrifol yn fyd-eang Dwyochrog
Ystyrlon Datblygiadol
Goddefgar a pharch tuag at ddiwylliannau eraill

Ein cynulleidfaoedd

Bydd ein gwaith yn cael ei arwain gan ein hymgylltiad â'n cynulleidfaoedd. Mae ein cynulleidfaoedd yn amrywiol ac yn fyd-eang. Maent yn: e:

- artistiaid a chwmnïau artistig yng Nghymru
- y bobl a'r cymunedau amrywiol yng Nghymru
- gwneuthurwyr polisi, asiantaethau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol
- Cyngor Celfyddydau Cymru, ei staff a phartneriaid



Block, NoFit State (llun: Dan Tucker)

Gwneud dewisiadau ...

Ein strategaeth ryngwladol

Mae pum prif uchelgais i'n gwaith rhyngwladol, sef:

- 1** Bod ein sector yn cael cydnabyddiaeth ar lwyfan y byd ac yn cael effaith yn rhyngwladol.

Byddwn ni'n gwneud hyn drwy...

- a) adeiladu ar gapasiti sector celfyddydau Cymru i ymgysylltu a chymryd rhan yn rhyngwladol.

Byddwn yn annog ein hartistiaid a'n sefydliadau i deithio, ehangu eu profiadau a datblygu cysylltiadau creadigol newydd. Byddwn yn gweithio gyda hwy i sicrhau eu bod yn barod a bod ganddynt yr adnoddau i fanteisio ar farchnadoedd sefydlog rhyngwladol. Rydym hefyd yn disgwyl iddynt rannu eu profiadau i ysbrydoli pobl a chymunedau yng Nghymru i ymgysylltu â'r byd.

- b) cefnogi cyfleoedd i arddangos celfyddydau ac artistiaid Cymru yn rhyngwladol.

Byddwn yn buddsoddi mewn prosiectau gartref a thramor sy'n cysylltu celfyddydau Cymru â chyfleoedd rhyngwladol gartref a thramor i hyrwyddo a gwerthu eu gwaith.

- 2** Cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni ei huchelgeisiau rhyngwladol.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi cyfleoedd i'r diwydiannau celfyddydol, diwylliannol a chreadigol gyfrannu at, a manteisio ar effaith cytundebau masnach rhyngwladol a dirprwyaethau yn ogystal ag uchelgais dinasysyddiaeth fyd-eang Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd gosod y celfyddydau wrth wraidd strategaeth a brandio rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn helpu i gyflwyno hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru a'i phersonoliaeth fyd-eang mewn byd ar ôl Brexit.

- 3** Ailddiffinio ein perthynas gydag Ewrop.

Byddwn yn adnewyddu a chryfhau ein perthnasau gyda phrif rwydweithiau a sefydliadau'r sector diwylliannol. Byddwn yn gwneud hyn drwy gymryd rhan mewn prif rwydweithiau Ewropeaidd (IETM, On the Move, Culture Action Europe a'r NPLD) mewn partneriaeth â swyddfeydd byd-eang Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau diwylliannol yn ogystal â chyda'r British Council ac asiantaethau llywodraeth y DU.



Meet Fred, Hijinx (llun: Tom Beardshaw)

4 Meithrin cysylltiadau diwylliannol â chymunedau rhyngwladol sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.

Byddwn yn defnyddio arfer celfyddydol fel ffordd o feithrin gwell perthnasau rhwng nifer o gymunedau amrywiol Cymru, a defnyddio ein cysylltiadau rhyngwladol i ddarganfod ffyrdd newydd o feithrin cysylltiadau rhwng yr ieithoedd a'r diwylliannau gwahanol yng Nghymru.

5 Darparu gwybodaeth, deallusrwydd a chymorth i'n cynulleidfaoedd.

Bydd datblygu Celfyddydau Rhyngwladol Cymru fel brand y gellir ymddiried ynddo a ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth am gyfleoedd a chyngor ar faterion rhyngwladol ac ar y celfyddydau yng Nghymru ar gyfer partneriaid rhyngwladol, yn flaenoriaeth. Byddwn hefyd yn ymchwilio ac archwilio i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a marchnadoedd newydd posibl.

Ein perthnasau byd-eang

Rydym yn genedl fach ag uchelgeisiau mawr. Er ein bod yn cymryd diddordeb gweithredol yng ngwaith ein hartistiaid, ble bynnag yn y byd y maent yn gweithio, o Gamerŵn i Frasil, mae ein prif bartneriaethau strategol yn canolbwyntio ar nifer llai o wledydd.

Byddwn yn datblygu ein gwaith cymaint â phosibl yn y llefydd hynny lle mae budd ehangach i Gymru. Byddwn yn gweithio, mor aml â phosibl, yn gydweithredol gyda nifer fawr o bartneriaid yng Nghymru ac yn rhyngwladol o fewn ardaloedd sy'n flaenoriaeth daearyddol.

Caiff gweithgareddau strategol a arweinir gan artistiaid a chwmnïau mewn gwledydd eraill eu hannog a'u cefnogi.

Bydd ein hymdrechion strategol ein hunain yn canolbwyntio ar ble y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf, lle y mae o fudd diwylliannol i Gymru wneud hynny, lle ceir cydgyfnewid, a lle ceir ymgysylltiad hirdymor sydd â phwysigrwydd diwylliannol a/ neu ariannol.

Y blaenoriaethau daearyddol ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r rheini lle:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ein gorfodi i ddatblygu perthnasau diwylliannol
- Mae Cymru yn bresennol gydag ymgysylltiad hirdymor a chyda phwysigrwydd gwleidyddol, diwylliannol ac ariannol a sy'n gwneud perthynas gynaliadwy
- mae cyfleoedd i arfer cymell tawel yn cyflawni canlyniadau buddiol i Gymru
- mae cyfleoedd datblygu sylweddol ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru
- mae cysylltiadau perthnasol â bywyd diwylliannol Cymru
- fod ymrwymiad dwyochrog i weithio gyda Chymru

Ein ffocws daearyddol presennol yw:

Ewrop – ailddiffinio'n perthnasau gyda gwledydd yr UE

Tseina – tyfu effaith y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Diwylliannol Tsieina-Cymru ar gyfer y celfyddydau

Canada – datblygu ffocws newydd ar gyfer ein gwaith yn yr Amerig ac ailedrych ar ein trafodaethau hirsefydlog gyda Quebec

India – rhaglen etifeddol o'r rhaglen India – Cymru ddiweddar, yn cynnwys cymunedau is-gyfandir India yng Nghymru

Cenhedloedd a rhanbarthau gyda chysylltiad diwylliannol a ieithyddol gyda Chymru – yng nghyd-destun Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a strategaeth Cymraeg 2050 a Blwyddyn Ieithoedd Cynhenid 2019 UNESCO byddwn yn datblygu celf sy'n ymwneud gydag ieithoedd a lleiafrifoedd eraill.



Ein partneriaethau strategol


Mae partneriaeth a chydweithredu wrth wraidd ein gwaith rhyngwladol.

Rydym yn parhau i fagu partneriaethau presennol a datblygu rhai newydd.

Ein prif bartner yw ein noddwr ariannol, Llywodraeth Cymru, a byddwn yn parhau i ddatblygu ein cysylltiadau gyda thîm rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn fyd-eang.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â'r British Council am fwy na dau ddegawd. Mae'n berthynas sy'n hanfodol i lwyddiant Cymru yn yr arena rhyngwladol.

Mae cyfuniad pwerus rhwydweithiau rhyngwladol sefydlog y British Council a gwybodaeth fanwl Cyngor y Celfyddydau am y celfyddydau yng Nghymru yn cryfhau enw da rhyngwladol ein cenedl fel canolfan o ragoriaeth greadigol.



Capel Patagonia, Cefyn Burgess

Y gwasanaethau a ddarparwn

- rydym yn cefnogi a datblygu gweithgareddau celfyddydau o safon uchel – rydym yn buddsoddi arian cyhoeddus, gan ddefnyddio'r arian i greu cyfleoedd i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau.
- rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol ynglŷn â gweithio'n rhyngwladol yn y celfyddydau – rydym yn ganolfan genedlaethol o fewn rhwydweithiau, ffurfiol ac anffurfiol, o ddarparwyr gwybodaeth (yn y DU a thu hwnt) ynglŷn â'r celfyddydau gartref a thramor. Trwy ein Cyngor, ein staff a'n gweithwyr cyswllt mae gennym y crynodiad mwyaf o arbenigwyr y celfyddydau yng Nghymru, nifer â phrofiadau, cysylltiadau ac arbenigedd rhyngwladol.
- Rydym yn darparu cyngor ar gyfer partneriaid rhyngwladol sy'n ymwneud â'r celfyddydau yng Nghymru – rydym yn datblygu a chynnal perthnasau gyda phrif asiantaethau a phartneriaid mewn ardaloedd sy'n flaenoriaeth daearyddol. Rydym yn cyflwyno artistiaid o Gymru i gysylltiadau o'r DU a rhyngwladol a chyfleoedd priodol.
- rydym yn codi proffil rhyngwladol y celfyddydau yng Nghymru – ni yw'r llais cenedlaethol ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru, yn hyrwyddo safon, gwerth a phwysigrwydd artistiaid a sefydliadau celfyddydau'r wlad.
- rydym yn cynhyrchu mwy o arian ar gyfer economi'r celfyddydau – rydym yn archwilio partneriaethau rhyngwladol a ffrydiau ariannu newydd i ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru, ac mae gennym bresenoldeb mewn digwyddiadau rhyngwladol gartref a thramor sy'n agor marchnadoedd newydd i artistiaid o Gymru.
- rydym yn dylanwadu ar gynllunwyr a phobl sy'n gwneud penderfyniadau – cynhelir y celfyddydau mewn sefyllfaoedd amrywiol. Gallent gael effaith ddramatig ar safon bywydau pobl, a'r lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt. Mae'r celfyddydau hefyd yn aml wrth wraidd y mentrau i hyrwyddo proffil Cymru yn rhyngwladol. Ein swydd ni, wrth weithio gydag asiantaethau llywodraeth gwahanol yng Nghymru a'r DU, yw sicrhau bod y cyfraniad y gall y celfyddydau ei wneud yn cael ei gydnabod.
- rydym yn ymchwilio a datblygu cyfleoedd rhyngwladol yn y celfyddydau – mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a sefydliadau diwylliannol y DU megis y British Council, rydym yn hyrwyddo'n rhyngwladol ddiwylliant cyfoes Cymru, ac rydym yn annog dulliau cyfnewid a chydweithredu rhyngwladol rhwng artistiaid a sefydliadau celfyddydol.
- rydym yn dod â phobl at ei gilydd trwy'r celfyddydau i feithrin dealltwriaeth ddiwylliannol a goddefgarwch.

www.wai.org.uk



Nawr yr Arwr, Marc Rees (Ilun: Warren Orchard)

Bod yn gynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddarn tyngedfennol o ddeddfwriaeth. Mae'n anelu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan weithredu, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae gan bob un o'r 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru – gan gynnwys Cyngor y Celfyddydau – ddyletswydd statudol i ymgymryd â'r daith hon o newid, ac i ymgorffori datblygu cynaliadwy o fewn eu sefydliadau. Rydym yn falch o gefnogi dull arloesol Cymru o ymgymryd â datblygu cynaliadwy drwy roi diwylliant wrth wraidd ei dull gweithredu, fel y pedwerydd piler ar y cyd â chynaliadwyedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

Fel yr asiantaeth datblygu ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru, rydym yn un o'r gyrff cyhoeddus hyn ac mae gennym rôl hanfodol ac allweddol i'w chwarae wrth gyflawni'r nodau llesiant.

Y Saith **Nod Llesiant** yw:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae **pum ffordd o weithio** yn ein hymrwymo i feddwl a gweithredu'n wahanol.

Maent yn ymwneud â:

- sut rydym yn cynllunio a meddwl yn **hir dymor** ynglŷn â'r penderfyniadau a wnawn, ac ystyried sut rydym yn diwallu anghenion y presennol gan warchod anghenion y dyfodol
- sut rydym yn **cynnwys** pobl o gymunedau gwahanol
- sut rydym yn **cydweithredu** gyda'n partneriaid
- sut rydym yn **integreiddio** ag amcanion llesiant gyrff cyhoeddus eraill a all gael effaith arnom
- sut rydym yn **osgoi** problemau rhag digwydd neu waethygu.

O'n dull o reoli a rhedeg ein swyddfeydd o ddydd i ddydd i ddatblygiad polisi, ein holl seilwaith corfforaethol; cynllunio, hyfforddi a datblygu a strategaethau ariannol, rydym yn ymrwymedig i osod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Mae gweithio'n rhyngwladol yn cyflwyno heriau cynaliadwy amlwg a sylweddol, yn enwedig materion cynaliadwyedd amgylcheddol sy'n gysylltiedig â theithio rhyngwladol.

Dros gyfnod y Cynllun hwn byddwn yn gweithio gydag asiantaethau arbenigol, i wella cynaliadwyedd ein gweithgareddau.

Y fframwaith yr ydym yn gweithredu o'i fewn yw Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, gwyddwn mai effaith tlodi, ansicrwydd bwyd, anllythrennedd, anghydraddoldeb incwm, a gofal iechyd gwael, yw'r heriau byw y mae llawer o bobl yn eu hwynebu yn ddyddiol.

Fel dinasyddion byd-eang cyfrifol hoffem i'n camau gweithredu wella'r sefyllfa bresennol. Fel un o ddiwydiannau mwyaf y byd, gall diwylliant fod yn un o'r prif ddulliau o ddod ag arian tramor i economïau datblygol, gan gynyddu'r galw am nwyddau a gwasanaethau lleol, cynyddu seilwaith ac addysg, a chyflwyno buddsoddiad tramor angenrheidiol. Fodd bynnag, pan gaiff ei reoli mewn modd anghyfrifol, mae'n bosibl y gall gwaith rhyngwladol waethygu anghydraddoldebau presennol.

Mesur ein cynnydd

Mae'n hanfodol bod arian cyhoeddus yn cael ei wario ar weithgareddau sy'n darparu'r budd diwylliannol, economaidd a chymdeithasol gorau posib. Mae angen i ni allu esbonio – yn glir a chywir – yr effaith y mae ein buddsoddiad yn ei chael ar gyflawni ein blaenoriaethau. I'n helpu i wneud hyn, rydym yn atodi pwysigrwydd penodol i fonitro a gwerthuso.

Mae ein dull gweithredu yn cydnabod pwysigrwydd gwerthuso fel sail i ddatblygu

polisi. A bydd yn pwysleisio bod y gallu i gael tystiolaeth werthuso dda yn dibynnu cymaint ar y gwaith o ddylunio a gweithredu polisi ag y mae ar ddylunio'r broses werthuso. Bydd y disgyblaethau hyn yn cael eu gosod wrth wraidd ein gwaith o ddatblygu polisiau a phrosiectau ar gyfer y dyfodol.

Bydd prif weithrediadau, rhaglenni a gweithgareddau yn cael eu monitro a'u hadrodd yn rheolaidd.

| Lefel | Prosesau Adrodd a Monitro |
|---|---|
| Ymrwymïadau Lefel Corfforaethol (pum mlynedd) | Caiff cynnydd ei fonitro'n flynyddol a'i addasu gan y Cyngor os bydd angen fel rhan o'i brosesau cynllunio blynyddol. |
| Targedau (blynyddol) gweithredol | Caiff cynnydd ei fonitro fel rhan o'r broses adrodd chwarterol i'r Cyngor a Llywodraeth Cymru. |
| Prosiectau | Caiff prosiectau sylweddol eu rheoli gan ddefnyddio methodoleg rheoli prosiectau Cyngor y Celfyddydau. Lle y bo'n briodol, efallai y caiff prosiectau eu dewis fel ymgeiswyr ar gyfer asesiad allanol. |
| Bodddhad cwsmeriaid | Byddwn yn cynnal 'arolygon cyflym' yn rheolaidd i asesu'r graddau yr ydym yn cyrraedd disgwyliadau ein defnyddwyr. |
| Cynadleddau, digwyddiadau a gweithdai | Gofynnir am adborth ar effeithiolrwydd yr holl ddigwyddiadau cyhoeddus a gynhaliwn. |



Rangoli Art that Binds, Cynrychiadau'r Neidr Nadreddog a Theatr y Byd Bach

Felly beth all fod yn bosibl, nawr ac yn y dyfodol?



Carnifal y Môr, Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd (llun: Nick Treharne)

Mae Cymru yn newid, ac yn newid yn gyflym. Mae cymdeithas hael, deg a goddefgar yn gwerthfawrogi a pharchu creadigrwydd ei holl ddinasyddion. Mae'n gymdeithas sy'n cofleidio cydraddoldeb ac yn dathlu gwahaniaeth, ble bynnag y'i gwelir mewn hil, rhyw, rhywioldeb, iaith, oedran neu anabled. Y gwahaniaethau hyn, o bosib, yw ein hasedau cryfaf. Maent yn darparu naratif diwylliannol unigryw i Gymru ac yn cysylltu ag eraill yn rhyngwladol. Mae ein diwylliant wedi'i gyfoethogi a'i chwyddo o ganlyniad i ddysgu oddi wrth brofiadau eraill o amgylch y byd. Ac wrth i ni archwilio diwylliannau ymhellach i ffwrdd, rydym yn dysgu mwy amdanom ni ein hunain.

Felly beth allwn ni ei weld, beth allwch chi ei glywed mewn byd lle caiff Diwylliant ei weld fel canolbwynt i ystyr Bywyd?

Byd lle mae Diwylliant yn ymuno â'r hawliau sylfaenol eraill hynny o ddiogelwch, iechyd, addysg a ffyniant fel ffordd o alluogi bodau dynol yn eu holl amrywiaeth i ffynnu?

Byd lle mae strwythurau gwleidyddol a chymdeithasol yn cael eu bywiogi gan allu pobl i ddarlunio eu hunain a'u bwriadau, unigol a chymdeithasol, wrth fynd ati ar y cyd i ddarparu cymdeithas fwy cyfartal, teg a chynaliadwy?

Dyma pam, wrth anelu i gyflawni ein huchelgeisiau rhyngwladol, ein bod yn cydweithio i feithrin dealltwriaeth ddiwylliannol rhwng pobl, llywodraethau a gwledydd.

 wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

www.wai.org.uk



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
 **Y LOTERIGENEDLAETHOL**
THE NATIONAL LOTTERY®